ASTUDIAETH ACHOS
SUT Y GALLWN NI WARCHOD BIOAMRYWIAETH?

Mwynhaodd y dysgwyr ddysgu am fioamrywiaeth ac roeddent am ddod o hyd i ardal wyllt y gallent ei gwella, ar dir yr ysgol. Roedd yr ardal a ddewiswyd ganddynt wrth ochr y sied feiciau, sef ardal nad oedd wedi'i chyffwrdd ers blynyddoedd lawer. Fe wnaethant adnabod yr organebau a oedd yn byw yno ac edrychwyd ar y ffordd orau o amcangyfrif nifer yr organebau o wahanol rywogaethau yn yr ardal (yn ychwanegol at weithgareddau Tirlun).



Ar ôl cael anifail i'w astudio, cynhyrchodd y dysgwyr Sway, fel yr un hwn: https://sway.cloud.microsoft/UHyEBxrS6Q5pmNDP?ref=Link&loc=play.

Daeth yn amlwg i'r athrawes mai ychydig iawn o wybodaeth oedd gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr am y mathau o anifeiliaid a geir ar dir yr ysgol. Felly, ychwnaegwyd at y wybodaeth a gafwyd wrth gynhyrchu cyflwyniadau Sway, i gynnwys mwy o bryfed, adar a chnofilod cyffredin sy'n byw ym Mhrydain. Bu'r dysgwyr yn darllen ynghylch y rhain ac yn datblygu posteri a chardiau ffeithiau. Roedd y rhain yn cael eu harddangos yn y dosbarth.

Roedd rhai dysgwyr yn cael trafferth gyda'r cysyniad o gadwyni bwyd, felly creodd yr athro gardiau oedd yn cynnwys enwau a lluniau'r organebau a setiau o saethau. Defnyddiodd y dysgwyr y rhain i ymarfer adeiladu cadwyni bwyd ac aeth rhai dysgwyr ymlaen i lunio gweoedd bwyd. Fe ddefnyddion nhw'r posteri a'r cardiau ffeithiau i gyfeirio atynt.

Rhestrodd y dysgwyr eu syniadau ar gyfer gwarchod yr amgylchedd lleol a datblygu cynlluniau ar gyfer beth i'w wneud fel dosbarth. Dewisodd y dysgwyr ddarn bach o dir wrth ochr yr ysgol, lle'r oedd gweiriau ac iorwg yn tyfu, ond ychydig iawn o blanhigion blodeuol, brodorol.



Gan ei bod yn gynnar yn y gwanwyn, cymrodd y dysgwyr ffotograffau o'r 'ardal wyllt' cyn rhoi eu cynlluniau i gynyddu bioamrywiaeth ar waith. Fe wnaethon nhw glirio'r sbwriel o'r ardal mewn modd ddiogel, gan wneud yn siŵr nad oeddent yn cael gwared ar hen ganghennau a brigau.

Er mwyn cynyddu bioamrywiaeth a helpu peillwyr, roedd y dysgwyr eisiau hadu'r tir gyda rhai blodau gwyllt. Buont yn cloddio darnau bach iawn o laswellt neu iorwg, gan fynd ati i wasgaru hadau blodau gwyllt, cyn eu gorchuddio ag ychydig o bridd. Yna, roedd yn rhaid aros i weld pa blanhigion oedd yn tyfu.





Yn gynnar yn yr haf, fe wnaethon nhw asesu'r fioamrywiaeth drachefn a chymryd ffotograffau. Roedd arddangosfa ddosbarth yn cynnwys ffotogarffau 'cyn' ac 'ar ôl'.